

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Medi 1af, 2016 yn Festri Capel Pencaenewydd.

Yn bresennol: Y Cyngorwyr Marian Evans, (Cadeirydd); Gwilym M Thomas, (Is gadeirydd); Dafydd Williams; Margaret Griffith; Trefor W Jones; Ifor Wyn Davies; Aled Lloyd Evans; William Ifor Hughes; Alwen Evans; Anwen Jones a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau.: Y Cyngorwyr Tegid Jones; Sian Angharad Parry; Thomas Prys Jones a Naomi Jones.

2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Orffennaf 7fed, 2016.

3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

4. Datgan buddiant personol. Neb yn datgan buddiant personol.

5. Cyngor Gwynedd.

1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned; gohebiaeth ynghylch Lladd Gwair ac Achos o Rwystro Trafnidiaeth Achlysurol ger Capel Siloh, Chwilog.

Lladd Gwair. Gofynnodd y Cyngor Sir am enghreifftiau penodol lle mae angen barbio o gwmpas arwyddion ffyrdd; penderfynwyd anfon yr enghreifftiau canlynol: o gwmpas yr arwyddion 40 mya yn Rhoslan; o gwmpas yr arwyddion ym mhant Llwyn Annas, Chwilog ac o gwmpas yr arwydd 40 mya i lawr o'r Ffôr am bont Rhydygwystl, y tu allan i'r gymuned hon ond yn arwain i mewn iddi. Yn ychwanegol penderfynwyd anfon yn mynegi siomedigaeth gyda safon y barbio yn gyffredinol.

Rhwystro Trafnidiaeth Achlysurol ger Capel Siloh, Chwilog. Roedd Cyngor Gwynedd yn awgrymu bod y Cyngor yma yn cysylltu gyda'r Heddlu. Penderfynwyd gwneud hynny.

2. Gwasanaeth Cyfreithiol Par: Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Llwybr Troed Rhif 67 yng Nghymuned Llanystumdwy) Gwyro Llwybr Cyhoeddus 2016. Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth.

3. Adran Rheoleiddio; Gwasanaeth Cynllunio, Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd; Y Lôn Goed a materion eraill. Penderfynwyd diolch am y wybodaeth mai trosedd sifil yn erbyn perchennog tir yn unig yw tramwyo gyda cheffyl ar hyd unrhyw lwybr troed, na all y Cyngor Sir godi unrhyw arwydd i atal defnydd ond y gall y perchnogion wneud; bod arwydd y Lôn Goed yn ôl ar ei draed ger Coed Cae Du a bod llwybr Afonwen (rhif 88) wedi cael ei ail agor gyda grisiau pren wedi'i osod dros dro i'r traeth.

4. Adran Cefnogaeth Gorfforaethol; Rheolwr Cyswllt Mentrau Cymdeithasol; amserlen newydd ar gyfer ymateb i'r Ymgynghoriad Toiledau Cyhoeddus. Roedd estyniad i'r dyddiad ymgynghori. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd peidio ymateb ymhellach, bod y Cyngor wedi hysbysu'r Cyngor Sir nad yw'r Cyngor yma am roi cyfraniad o £2000- tuag at gynnal y toiled cyhoeddus ym mhentref Llanystumdwy er eu bod wedi clustnodi £2000-yn eu cyllideb ar gyfer y flwyddyn. Mae cyflwr yr adeilad yn wael, does dim cyfleuster golchi dwylo yn adran y dynion ac mae Cyngor Gwynedd wedi cael eu hysbysu o hyn.

5. Technoleg Gwybodaeth; Map Hawliau Tramwy. Yn dilyn cais y Cyngor yma am fap hawliau tramwy ar gyfer safle we y Cyngor roedd Cyngor Gwynedd wedi anfon trwydded Arolwg Ordnans ar gyfer ei ddefnydd. Roedd angen i'r Cyngor yma gytuno i delerau'r gytundeb. Penderfynwyd gwneud hynny a hysbysu'r Cyngor Sir o'r penderfyniad.

6. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y gymuned.

1. Cais Rhif C16/0696/41/LL – Dymchwel estyniad ochr presennol a chodi estyniad deulawr yn ei le; Sŵn yr Afon, 3 Pensingrig, Rhoslan.

Dim gwrthwynebiad.

2. Cais Rhif C16/0660/41/LL – Cais i ddileu Cytundeb 106; Bwthyn Cerrig, Llangybi.

Dim gwrthwynebiad.

3. Cais Rhif C16/0705/41/LL – Cais i drosi adeilad allanol i dŷ fforddiadwy 4 llofft; Penarth Fawr, Chwilog.

Cefnogi.

4. Cais Rhif C16/0708/41/LL – Cais ôl weithredol ar gyfer codi stabl; Y Rheithordy, Llanystumdwy. Dim gwrthwynebiad.

5. Cais Rhif C16/0817/41/LL – Cais i ddymchwel estyniad presennol a chodi estyniad ochr deulawr; Ty'n y Morfa, Llanystumdwy.

Dim gwrthwynebiad.

6. Cais Rhif C16/0795/41/LL – Cais diwygiedig i'r hyn a wrthodwyd o dan C15/0737/41/LL ar gyfer amnewid 25 carafan teithiol am 12 carafan sefydlog, ail leoli 4 carafan sefydlog bresennol ynghyd ag ail leoli gwasanaethau a chreu lle chwarae a darparu tirweddu; Criccieth Caravan Park, Caernarfon Road, Criccieth.

Dim gwrthwynebiad.

Anfonwyd y sylwadau uchod ar sail yr ymatebion gafwyd gan rai Cynghorwyr ac yna ymgynghori gyda'r Cadeirydd ac roedd angen eu cadarnhau. Cadarnhawyd y penderfyniadau.

7. Cais Rhif C16/0904/41/LL – Diwygiad i gais a wrthodwyd o dan C15/0585/41/LL ar gyfer gosod 2 garafan static ychwanegol, gosod system trin carthion newydd a tirweddu; Tyddyn Morthwyl Camping Site, Rhoslan.

Penderfynwyd cefnogi.

* Trwy ganiatad y Cadeirydd

8. Cais Rhif C16/0928/41/LL – Cais i amnewid 3 carafan statig presennol gyda 3 caban pren ar gyfer defnydd atodd i'r prif eiddo; Pensarn, Pont Rhyd y Benllig, Rhoslan. Penderfynwyd gwrthwynebu ar sail gor ddatblygu ar y safle.

7. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Cyflwr y ffordd ar y gyffordd dros y ffordd i'r Eglwys. Mae wyneb y ffordd wedi cracio, bydd dirywiad pellach os na fydd yn cael sylw. Penderfynwyd anfon at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd

Llanystumdwy

Rhoslan

Gor dyfiant a choed sydd yn amharu ar welediad ar Bont Rhydybenllig. Penderfynwyd anfon y gwyn at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.

Chwilog:

Pencaenewydd/Sardis;

Yr arwydd am Lanaelhaearn ger Hendy. Mae'n ymddangos bod yr arwydd wedi diflannu. Penderfynwyd hysbysu'r Cyngor Sir o hynny.

Llangybi:

Cyflwr llwybr Pont Merchaid, yn dilyn y cyfarfod safle. Cafwyd adroddiad yn dilyn y cyfarfod safle; mae angen sylw i'r goeden sydd wedi disgyn ar draws y bont ac mae angen peth gwaith ochr Ffynnon Cybi. Penderfynwyd gofyn am arweiniad Adran Llwybrau Cyngor Gwynedd.

8. Un Llais Cymru,

a. Cynhadledd/Arddangosfa a Chyfarfod Cyffredinol, Hydref 1af yn Llanelwedd.

Penderfynwyd i'r Cynghorwyr Gwilym M Thomas (Is gadeirydd), Trefor W Jones a'r Clerc fynd i'r Gynhadledd.

b. Cynigion ar gyfer y gynhadledd. Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth.

9. Gohebiaeth oddi wrth Cylch yr Iaith a gohebiaeth oddi wrth Swyddog Rhaglen Cyngor Gwynedd. Derbyniwyd eu llythyr diolch am gefnogaeth.

10. Cwrs yng Nghaernarfon, ddydd Mawrth, Medi 27ain gan Planning Aid Wales ar Sut i ymateb yn effeithiol i geisiadau cynllunio. Roedd y Cynghorydd Naomi Jones yn awyddus i fynd ar y cwrs yma, y Clerc i wneud y trefniadau.

Materion Ariannol.

11. Lightsource; arwyddo ar ran y cwmni. Derbyniwyd er gwybodaeth bod y cwmni wedi arwyddo'r gytundeb erbyn hyn; mae'r Cyngor yma wewdi arwyddo ers tro.

12. Archwiliad Ariannol Allanol. Dal heb gael ymateb er mwyn gallu cwblhau'r archwiliad cyn diwedd mis Medi. Yn dilyn sgwrs dros y ffôn gyda'r cwmni BDO, dywedant nad oes angen cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor ym mis Medi, y bydd yn dderbyniol derbyn yr argymhellion yng nghyfarfod mis Hydref.

13. Derbyn y canlynol:

a. Ad daliad TAW o £227.88c. Derbyniwyd.

b. SLCC; arian bwrsari, £34.50c. Penderfynwyd derbyn.

c. Cyngor Gwynedd; Ail daliad y Praesept, £7,500-. Derbyniwyd.

14. Adroddiad ariannol ar lafar. Derbyniwyd.

15. Anfonebau angen eu talu

1. Criccieth Cleaning Ltd., Torri llwybr Ffynnon Cybi am Garn Bentyrch, y llwybr swyddogol £70- +TAW, cyfanswm £84-; Taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

2. SLCC; cwrs i'r Clerc yn Llandudno, Medi 14eg £69- + TAW, cyfanswm £82.80c. Taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

3. Un Llais Cymru os bydd cynrychiolaeth o'r Cyngor yn mynd i'r Gynhadledd, Hydref 1af, 2016. Penderfynwyd i dri fynd i'r Gynhadledd (cofnod 8a); 3 x £80-, gostyngiad talu'n gynnar, £240-; Taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.

